YSGOL PENRHYNCOCH

Yn gyntaf oll y tro hwn rhaid llongyfarch Elen Hughes ar ennill y lle blaenaf yng nghystadleuaeth yr unawd i rai dan 12 oed yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Aberystwyth ac am ddod yn ail yn Eisteddfod y Sir a gynhaliwyd yn ddiweddarach yn Nhregaron. Da iawn Elen. Rydym yn falch o'ch llwyddiant ac yn dymuno'n dda i chwi eto i'r dyfodol.

Bu Mrs E A Evans yn hynod brysur gyda threfnu'r eisteddfod gan mai hi yw cadeirydd presennol Cylch Aberystwyth o'r Urdd. Oherwydd y gweithredu diwydiannol eleni nid gwaith hawdd oedd hwn ond fel arfer gwnaeth ei gwaith gyda graen ac yr oedd ôl trefnusrwydd ar yr holl weithgareddau. Prin iawn yw'r rhai hynny sy'n barod i roi ysgwydd dan y baich ond rhoddodd Ysgol Penrhyncoch, ac yn arbennig Mrs Evans bob cefnogaeth i'r Urdd a'r holl bwyllgorau ar hyd yr amser Diolch yn fawr i chwi Mrs Evans.

Fore Mawrth olaf y tymor cawsom wasanaeth arbennig yn yr ysgol i gofio'r Groglith a'r Pasg. Cymerodd plant i gyd ran mewn canu, darllen a gweddio a chafwyd anerchiad a hir gofir gan y Parch Maldwyn Pryse, Aberystwyth. Soniwyd bod dathlu Gŵyl Ddewi'n bwysig ond bod cofio croeshoeliad Crist a'i atgyfodiad - y digwyddiadau mwyaf yn hanes y byd - yn llawer pwysicach. Roedd y plant wedi bod yn brysur yn gwneud cardiau a basgedi'r Pasg a beirniadwyd hwy gan y Parch M Pryse. Cyflwynodd wyau Pasg i'r enillwyr yn y gwahanol ddosbarthiadau.

Daeth cyfnod Ymarfer Dysgu Miss C A Price i ben gennym. Diolchwyd iddi am ei llafur yn ystod yr amser y bu yma yn ein plith. Bu'n hynod barod i gynorthwyo bob amser. Dymunir y gorau iddi eto yn ystod y tymor nesaf yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth.